Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

Ysgol Pontrobert
Meifod
Powys
SY22 6JN

07/10/2025

Annwyl arweinwyr a staff

**Ymweliad Interim:** Medi 2025

Ymwelodd tîm o arolygwyr ag Ysgol Pontrobert i ystyried sut mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd wrth fynd i'r afael ag un o'r argymhellion o'r arolygiad craidd mwyaf diweddar (Mehefin 2023), yn ogystal ag un o flaenoriaethau cyfredol yr ysgol. Isod, ceir crynodeb o gynnydd yn erbyn y blaenoriaethau hynny.

**Ffocws yr ymweliad**

**Darparu cyfleoedd amserol i ddisgyblion ymateb i adborth er mwyn datblygu eu gwaith ymhellach**

- Mae gan y pennaeth a'r staff ddealltwriaeth gadarn o gynnydd yr ysgol o ran ymateb i adborth a gwella gwaith disgyblion.
- Mae'r pennaeth wedi cefnogi datblygiad proffesiynol staff yn effeithiol drwy gynnig hyfforddiant pwrpasol ac ymgymryd â gwaith ymchwil gweithredol. Caiff athrawon eu hannog i dreialu gwahanol weithdrefnau wrth gefnogi disgyblion i ymateb i adborth a gwella eu gwaith.
- Mae staff wedi cydweithio'n llwyddiannus i addasu'r trefniadau ar gyfer cynnig adborth ar waith disgyblion. Maent wedi cynnwys llais y disgybl yn y broses er mwyn datblygu eu dealltwriaeth o ddibenion adborth. Mae disgyblion yn dangos balchder yn eu gwaith ac yn gallu cyfleu eu proses dysgu a sut maent wedi gwella eu gwaith yn hyderus.

Estyn, Llys Angor, Heol Keen, Caerdydd, CF24 5JW Ffôn: 02920 446446 ymholiadau@estyn.llyw.cymru www.estyn.llyw.cymru

Mae Estyn yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg. Bydd gohebiaeth a dderbynnir yn y naill iaith neu'r llall yn cael yr un flaenoriaeth.

Estyn, Anchor Court, Keen Road, Cardiff, CF24 5JW Telephone: 02920 446446 enquiries@estyn.gov.wales www.estyn.gov.wales

Estyn welcomes correspondence in both English and Welsh. Correspondence received in either language will be given equal priority.

- Mae staff wedi mireinio'r cynllun marcio yn fwriadus, gydag addasiadau synhwyrol ar gyfer sicrhau eu bod yn briodol i oed a chamau cynnydd disgyblion. Trwy hyn, mae staff yn cynnig adborth gwerthfawr i ddisgyblion sydd yn eu hannog i wneud gwelliannau i ansawdd a safon eu gwaith. O ganlyniad, mae gan ddisgyblion ddealltwriaeth briodol o bwrpas a budd yr adborth sydd, yn ei dro, yn cyfrannu'n bwrpasol at gynnydd yn eu medrau dros amser.

**Medrau ysgrifennu disgyblion Blwyddyn 2**

- Y llynedd, mae arweinwyr wedi gosod blaenoriaeth glir ar gyfer datblygu medrau llythrennedd disgyblion yn y dysgu sylfaen, gan ganolbwyntio'n benodol ar feithrin eu medrau ysgrifennu. Mae hyn wedi cyfrannu'n gadarn at gynnydd, hyder a mwynhad disgyblion Blwyddyn 2 at eu gweithgareddau ysgrifennu.
- Mae arweinwyr yn creu ethos a diwylliant cynhyrchiol i gefnogi dysgu proffesiynol staff i feithrin medrau llythrennedd disgyblion. Cânt gyfleoedd gwerthfawr i rannu syniadau ag ysgolion cyfagos ac i arsylwi arfer dda. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar gynnydd ym medrau llythrennedd y disgyblion ieuengaf dros gyfnod.
- Trwy gynllunio bwriadus, mae staff yn sicrhau fod syniadau'r disgybl yn ganolog i'r broses. Mae hyn yn esgor ar gyfleoedd ysgrifennu ystyrlon ac ysgogol i'r disgyblion ieuengaf ar draws y meysydd dysgu a phrofiad.
- Defnyddir adnoddau pwrpasol, fel 'Ein Wal Wirio', i gefnogi'r dysgu. Mae hyn yn cyfoethogi medrau ysgrifennu'r disgyblion ieuengaf yn effeithiol.
- Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion Blwyddyn 2 yn ysgrifennu gyda chywirdeb cynyddol ac yn dangos gafael sicr ar wahanol ffurfiau. Yn yr arferion gorau, maent yn defnyddio atalnodi amrywiol yn gywir ac yn defnyddio ansoddeiriau a chymariaethau yn aeddfed er mwyn creu naws yn llwyddiannus.

Gellir dod o hyd i adroddiad arolygu craidd diweddaraf yr ysgol/UCD a gwybodaeth bellach am broses a phwrpas ymweliadau interim ar ein gwefan: http://www.estyn.llyw.cymru/darparwr/6662041

Yn gywir

LMiles.

**Liz Miles**
Cyfarwyddwr Cynorthwyol